TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

**Dyddiad cyhoeddi:** 10 Ionawr 2022

# Cais Rhyddid Gwybodaeth

Rydyn ni'n ysgrifennu atoch i ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a wnaethoch. Mae eich cais wedi cael ei ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n Polisi Rheoli Data a Gwybodaeth.

**Fe wnaethoch chi ofyn am yr wybodaeth ganlynol:**

> *"Allwch chi rannu beth yw polisi TrC yn ystod gemau pêl-droed rhyngwladol gan eu bod bob amser yn ymddangos yn is na'r safon* **[C1]**, *a hefyd beth yw'r cynllun ar gyfer gwella gwasanaethau TrC yn y dyfodol* **[C2]**.

# Atebion i'ch Cwestiynau

1. Nid oes gan TrC bolisi ar gyfer gemau pêl-droed rhyngwladol, gan fod pob digwyddiad mawr yn cael Cynllun Digwyddiad pwrpasol yn lle hynny. Mae pob Cynllun Digwyddiad yn cynnwys gwybodaeth sensitif sy'n ymwneud â diogelwch cenedlaethol, ac o'r herwydd, ni allwn ddatgelu'r Cynllun Digwyddiad ar gyfer y gêm bêl-droed ryngwladol o dan sylw (Cymru v Belarws - 13 Tachwedd), nac ar gyfer unrhyw ddigwyddiad mawr arall. Yng ngoleuni'r mater hwn o ddiogelwch gwladol, mae'n briodol bod TrC yn cadw'r wybodaeth hon yn ôl o dan Adran 38 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (Iechyd a Diogelwch - mae rhagor o wybodaeth am yr eithriad hwn ar gael yma).

   Pan fydd dogfennau'n cynnwys gwybodaeth sensitif, rydyn ni'n cydnabod y gallwn olygu'r wybodaeth honno. Fodd bynnag, yn yr achos hwn byddai'r ddogfen o dan sylw yn cael ei golygu i'r fath raddau fel y byddai ei chynnwys yn gwbl ddiystyr. Hoffem eich sicrhau bod pob Cynllun Digwyddiad yn cynnwys ystyriaethau manwl o'r canlynol:

   - Y ddarpariaeth bresennol o ran staff y Giatiau, y Swyddfa Docynnau a'r Platfform
   - Staff cefnogi ychwanegol ar gyfer digwyddiadau a'u lleoliadau
   - Staff cymorth refeniw ychwanegol a'u lleoliadau (archwilio tocynnau)
   - Staff rheoli torfeydd wedi'u penodi (staff goruchwylio a chefnogi uwch)
   - Swyddogion Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig penodedig a'u lleoliadau
   - Darpariaethau diogelwch a'u lleoliadau
   - Digwyddiadau mawr sy'n digwydd yr un pryd hefyd
   - Newidiadau nodedig i'r cynllun gwasanaeth (materion sy'n effeithio ar yr amserlen, y cerbydau ychwanegol y gofynnwyd amdanynt ac sydd ar gael os oes angen)
   - Gwaith peirianneg sy'n mynd rhagddo
   - Trefniadau ciwio a diagramau, gan gynnwys rhwystrau/mynediad cyfyngedig i orsafoedd, platfformau a thanlwybrau; ystyriaethau cadw pellter cymdeithasol.

   Mae proses lywodraethu a fframwaith cadarn ar waith i benderfynu sut i gategoreiddio pob digwyddiad mawr. Mae digwyddiadau lle disgwylir torfeydd o 50k+ yn gofyn am ystyriaethau 'Categori A', mae digwyddiadau ar gyfer 40-50k yn gofyn am ystyriaethau 'Categori B', ac mae digwyddiadau ar gyfer 30-40k yn gofyn am ystyriaethau 'Categori C'; gyda phob categori'n rhoi ystyriaeth briodol i broffil y dorf, risgiau diogelwch, ac agosrwydd at y rhwydwaith rheilffyrdd yn ogystal â nifer y torfeydd a ddisgwylir.

2. Mae'r wybodaeth hon eisoes ar gael i'r cyhoedd ar ein gwefan, sy'n rhoi trosolwg cynhwysfawr o'r gwaith sy'n cael ei wneud i gyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru o gael rhwydwaith trafnidiaeth diogel, integredig, fforddiadwy a hygyrch o safon uchel y mae pobl Cymru yn falch ohono. Mae rhai uchafbwyntiau wedi'u rhannu isod:

   - Rydyn ni'n buddsoddi £738m i drawsnewid rheilffyrdd y Cymoedd i Dreherbert, Aberdâr, Merthyr Tudful, Rhymni a Coryton, gan drydaneiddio 172 km o gledrau ac uwchraddio seilwaith i gael amseroedd teithio gwell a mwy o drenau bob awr.

   - Rydyn ni'n buddsoddi £800m i sicrhau bod 95% o'r teithiau yn digwydd ar drenau newydd. Bydd mwy na hanner y trenau yn cael eu cydosod yng Nghymru.

   - Rydyn ni am redeg 285 (29%) yn fwy o wasanaethau bob dydd Llun i ddydd Gwener, gan gynnwys gwelliannau ar reilffyrdd Glynebwy, y Cambrian a Chalon Cymru a Metro Gogledd Cymru (Wrecsam-Bidston). Bydd gwasanaeth newydd yn cysylltu Caerdydd a Lerpwl, drwy Wrecsam.

   - Rydyn ni'n buddsoddi £194m er mwyn gwella gorsafoedd, ac rydyn ni'n adeiladu o leiaf 5 gorsaf newydd. Bydd cronfa gwerth £15m yn gwneud gorsafoedd yn fwy hygyrch.

   - Bydd gorsafoedd a llinellau uwchben yn dod o ynni sy'n 100% adnewyddadwy, a bydd o leiaf 50% o'r ynni hwnnw yn dod o Gymru.

   - Bydd mynediad ar gael i'r rhyngrwyd o ddechrau'r daith i'w diwedd ar 85% o deithiau erbyn 2024.

   - Bydd tocynnau clyfar yn cael eu cyflwyno ledled Cymru a'r Gororau. Drwy gael dilyswyr ar Fetro De Cymru, bydd modd cael tocynnau hyblyg talu-wrth-ddefnyddio. Mewn ardaloedd eraill, bydd cwsmeriaid yn gallu defnyddio tocynnau symudol i sicrhau eu bod yn talu'r pris isaf bob amser.

   - Rydyn ni'n gosod mwy na 700 o sgriniau gwybodaeth newydd i gwsmeriaid ledled y rhwydwaith, yn ogystal â mewn lleoliadau eraill gan gynnwys colegau, ysbytai a gweithleoedd.

   - Rydyn ni'n buddsoddi mewn mwy na 200 o beiriannau tocynnau newydd, ac rydyn ni'n gwerthu tocynnau drwy siopau cyfleus er mwyn ei gwneud yn haws i'w prynu.

   Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar dudalennau canlynol ein gwefan:

   Beth sy'n digwydd | TrC
   Prosiectau | TrC

   Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi.

   Yn gywir,

   **Trafnidiaeth Cymru**

**Hawliau Apelio**

Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y cafodd eich cais ei drin a'ch bod chi'n dymuno gwneud cwyn neu wneud cais am adolygiad o'n penderfyniad, ysgrifennwch at y Pennaeth Rhyddid Gwybodaeth naill ai yn Trafnidiaeth Cymru, 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH neu freedomofinformation@tfw.wales. Rhaid i'ch cais gael ei gyflwyno cyn pen 40 diwrnod gwaith ar ôl derbyn y llythyr hwn. Os nad ydych chi'n fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.

Gallwch chi gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF neu gallwch chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy adran 'Gwneud Cwyn' eu gwefan ar y ddolen hon: https:/ico.org.uk/make-a-complaint/

Yr adran berthnasol i'w dewis fydd "Gwybodaeth Swyddogol neu Gyhoeddus".